**Bitesize**

# O Ran

**TRAETHYDD** Nofel am blentyndod merch o’r enw Angharad ydy *O Ran*. Er mai stori ddychmygol ydy hi, mae ’na elfen hunangofiannol iddi gan fod yr awdures, Mererid Hopwood, yn debyg o ran oedran i Angharad, ac fe'i magwyd yng Nghaerdydd yn ystod y ’70au.

Stori am daith ydy *O Ran*. Mae 'na dair taith: taith yn ôl mewn amser i blentyndod Angharad yng Nghaerdydd y '70au, taith i ganfod y gwir a thaith 'go iawn', o Lundain – lle mae Angharad yn byw – i Gaerdydd, lle cafodd ei magu.

Mae’r nofel wedi ei rhannu’n bedair rhan: gadael, ymlaen, croesi a chyrraedd.

Mae pob rhan yn adlewyrchu nid yn unig y siwrne go iawn, ond taith Angharad o'i phlentyndod i'r presennol.

Mae Angharad, sy’n unig blentyn, yn byw efo’i thad, Ifan Gwyn, sy’n gyfansoddwr ac yn gyfeilydd. Mae o hefyd yn rhoi gwersi canu i gantorion ifanc.

**IFAN** Un, dau …

**CANTORES 1** ‘Mae bys Meri Ann wedi briiiifo …’

**IFAN** Drïwn ni eto, ond yn uwch, ie?

**CANTORES 1** ‘Mae bys Meri Ann …’

**TRAETHYDD** Be ’di’r ots am ei bys hi? Be am fy nghlustiau i?!

Bu farw Mary, mam Angharad, pan oedd Angharad yn fabi. Felly, mae mam ei mam, mam-gu – ‘Myn-gu’ – ac Anti June yn teithio o Lanybydder yn y gorllewin yn wythnosol i edrych ar ôl Angharad a’i thad. Mae tafodiaith yr ardal i’w chlywed yn gyson drwy’r nofel.

**MAM-GU** Jiw, y’n ni’n neud yn dda ’ma. Y’n ni byti cwpla! Reit. Dished mewn munud, a mynd sha’r dre ’na pnawn ’ma.

**ANTI JUNE** Pasa honco fonco draw ata i. Wi’n gweud ’tho ti, ma’r holl gymoni ’ma’n chware hafoc ’da mhenglinie i.

**TRAETHYDD** Bob blwyddyn mae Angharad a'i thad yn ymweld â bedd ei mam. Ar un ymweliad, mae Angharad yn sylwi bod ei dyddiad geni hi a dyddiad marwolaeth ei mam yr un fath.

 © Hawlfraint 2015

Mae'n dod i'r casgliad taw hi laddodd ei mam.

CERDDORIAETH '*HORROR*'

**TRAETHYDD** Pan mae Angharad tua un ar ddeg oed, ar fws ar y ffordd 'nôl o'r dre, mae Angharad ac Anti June yn cael eu gwahanu.

**DYNES DDIEITHR** No need to ask if she's yours. Spittin' image she is an' all.

**TRAETHYDD** Mae hyn yn digwydd yn aml, ac mae'n gwylltio Angharad bod Anti June byth yn cywiro pobl. Y rheswm nad ydy Anti June yn cywiro'r ddynes y tro hwn ydy ei bod hi wrthi'n cael 'asthma attack' – y fogfa. Mae hi'n marw'n fuan ar ôl dod oddi ar y bws. Mae Angharad yn teimlo'n euog. Mae hi nawr yn gyfrifol am ladd dau berson!

**ANGHARAD** Hwyl, Dad!

**IFAN** Hwyl, cariad!

**TRAETHYDD** Erbyn i Angharad fynd i'r ysgol uwchradd, mae galw mawr ar Ifan i gyfeilio i gantorion talentog a rhai, hm – llai talentog ...

**CANTORES 2** 'Na beth yw cheek!

**TRAETHYDD** Ac mae'n cael comisiwn i gyfansoddi darn o waith ar gyfer Steddfod Caerdydd 1978. Ma' 'na lot o ganmol, ond mae'n derbyn ambell i lythyr cas, dienw.

**IFAN** Didalent … Gwael … Ofnadwy!

**TRAETHYDD** Mae hyn yn effeithio ar y cerddor croendenau, ac mae'n dechrau yfed yn drwm.

Pan ddaw'r beilwyr i gasglu ei gar a'i biano – a'i lamp – mae'n amlwg nad ydy o wedi gweithio ers amser, a'i fod yn alcoholig.

Ar ddiwedd y nofel cawn wybod mai ymweliad â'r ysbyty i weld ei thad oedd pwrpas taith Angharad.

**ANGHARAD** Jest mewn pr … yd!

**TRAETHYDD** Ond nid dyna ddiwedd y stori. 'Nôl yn y tŷ, mae Angharad yn darganfod amlen ymysg pethau ei thad.

**IFAN** Nid fi yw tad Angharad. Nid Mary yw mam Angharad.


© Hawlfraint 2015

Anti June yw mam Angharad!

**ANGHARAD** Wi’n credu gath e’i eirio’n well yn y nofel.

**TRAETHYDD** Felly, i grynhoi, Anti June oedd mam Angharad. Cafodd ei threisio a chafodd fabi o ganlyniad. Cafodd y babi, sef Angharad, ei rhoi i'w chwaer Mary a’i gŵr Ifan er mwyn arbed cywilydd – rhywbeth oedd yn gyffredin iawn yn y cyfnod. ’Dach chi’n gweld, ddim bod yn *stingy* oedden ni’n defnyddio'r un actores i chwarae’r ddwy ran.

Daw i wybod hefyd taw asthma laddodd ei mam wythnos ar ôl ei geni. Y fogfa, felly, laddodd Mary ac Anti June – ac nid hi.

CERDDORIAETH ‘*HORROR*’

**ANGHARAD** Felly allwch chi stopio’r nonsens *Psycho* ’na.

**TRAETHYDD** Mae Angharad yn penderfynu gadael Llundain a dod adre i Gaerdydd i fyw. Dyma ddiwedd y daith emosiynol a’r daith lythrennol.


© Hawlfraint 2015